



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Hydref 2026 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 October 2026 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/Councillors:** Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Teresa Harries, Richard Jones, Mark Cole, Richard Davies (*ymunodd am* /joined at 18.50), Philippa Noble (*gadawodd am*/left at 20.30), Trystan Phillips (*gadawodd am*/left at 20.40), Elaine Evans (*gadawodd am*/left at 21.05), Siân Maehrlein (*gadawodd am*/left at 21.05), David Maehrlein (*gadawodd am*/left at 21.05), Llinos Haf Jones (**Cyfiethydd** / Translator), Mike Lewis (Tivyside)(*gadawodd am*/left at 18.35) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyfeillion Parc Nepool – cyflwyniad ynghylch dyfodol y safle.

Cyflwynwyd adroddiad llawn a manwl gan Rose Barter, ynghyd â'i chyd aelod Roger Winn, yn amlinellu'r gweithgareddau diweddaraf a gynhaliwyd gan Ffrindiau Parc Netpool.

Rhoddodd y cyflwyniad hefyd drosolwg o gynlluniau'r grŵp ar gyfer y safle yn y dyfodol. Gwnaeth y grŵp gais i'r Cyngor i gymryd y tir ar brydles gan Gyngor Sir Ceredigion (CCC), gan alluogi'r dref i is-brydlesu'r tir wedyn iddynht nhw.

Esboniwyd y byddai'r trefniant hwn yn ei gwneud yn llawer haws i'r grŵp wneud cais am grantiau a chael y caniatâd angenrheidiol i gefnogi a datblygu eu cynlluniau ar gyfer y safle.

Penderfynodd y cyngorwyr gefnogi Friends of Netpool Park a byddant yn gofyn i CCC brydlesu'r tir am gyfnod penodedig, gan gynnwys cymalau terfynu perthnasol.

Friends of Nepool Park – presentation regarding the future of the site.

A full and detailed presentation was given by Rose Barter, who was accompanied by her colleague, Roger Winn, outlining the latest activities undertaken by the Friends of Netpool Park. The presentation also provided an overview of the group's future plans for the site. The group made a plea to the Council to lease the land from Ceredigion County Council (CCC), enabling the town to subsequently sublease the land to the Friends of Netpool Park group.

It was explained that this arrangement would make it considerably easier for the group to apply for grants and obtain the necessary permissions to support and develop their plans for the site. Councillors resolved to support Friends of Netpool Park and will ask CCC to lease the land for an appointed term with relevant break clauses included.

1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.
Cyng Clive Davies – gwrthdaro rhwng cyfarfodydd.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.
Cllr Clive Davies – clash between meetings.

2. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-aelodau i'r gyfarfod, a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Roedd y cynghorwyr yn falch iawn o glywed bod Graham Evans – cyn-gynghorydd a gŵr y Cyng Catrin Miles – wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Mae bellach ar y ffordd iawn i wella ac yn mwynhau cysur bod yn ôl gartref. Diolchodd y Cyng Miles i'w chyd-gynghorwyr am eu dymuniadau caredig.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow members to the meeting, and thanked them for their presence. Councillors were very pleased to learn that former councillor and husband of Cllr Catrin Miles, Graham Evans, has returned home following a lengthy stay in hospital. He is now firmly on the road to recovery and is enjoying the comfort of being back at home. Cllr Miles thanked her fellow councillors for their kind wishes.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein <i>gadawodd y cyfarfod</i> / left the meeting: <i>Pob mater yn ymwneud â chynllunio</i> / All matters relating to planning.	<i>Mae'r cynghorwr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio</i> / The councillor sits on the planning committee.
Y Cyng / Cllr Philippa Noble, <i>ni basiodd sylw</i> / did not pass comment: <i>Eitem 7 – Cais cynllunio rhif A260564 a A260565</i> / Item 7 – Planning application number A260564 and A260565.	<i>Mae'r cynghorwr yn gymydog agos i'r eiddo ac mae ei merch yn gweithio i'r ymgeisydd</i> / The councillor is a close neighbour to the property and her daughter works for the applicant.
Y Cyng / Cllr Richard Davies, <i>ni basiodd sylw</i> / did not pass comment: <i>Eitem 8 c) Gohebiaeth Rhif 250</i> / Item 8. c) Correspondence No 250: <i>Dyfnbris ar gyfer goleuadau Nadolig</i> / Christmas Lights Quote.	<i>Ar hyn o bryd, mae'r cynghorydd yn cyflawni'r gwaith hwn ar ran y Cyngor yn ei rôl fel y Bachan Deche</i> / The councillor currently carries out this work on behalf of the Council in his role as the Handyman.
Y Cyng / Cllr Catrin Miles, <i>ni basiodd sylw</i> / did not pass comment: <i>Eitem 8 g) Pared y Llusernau</i> / Item 8. g) Lantern Parade.	<i>Mae'r Cynghorydd yn Ymddiriedolwr yn Small World Theatre</i> / The Councillors is a Trustee at Small World Theatre.
Y Cyng / Cllr Teresa Harries, <i>ni basiodd sylw</i> / did not pass comment: <i>Eitem 8 m) Ceisiadau am Gymorth Ariannol</i> / Item 8. m) Applications for financial aid: <i>Clwb Pel Droed Iau Llandudoch</i> / St Dogmaels Junior Football Club.	<i>Mae wyr y cynghorwyr yn aelod o'r clwb</i> / The councillors' grandson is a member of the club.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 1 Medi 2026.

Cynigiodd y Cynghorwyr fod cofnodion cyfarfod y cyngor ar nos Fawrth 1 Medi yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 1 September 2026.

The Councillors proposed that the Tuesday, 1 September council meeting minutes be recorded as correct.

5. a) **Adroddiad y Clerc**

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2026.

- Cynhelir y cyfarfod ar gyfer trefniadau Sul y Cofio yn Ystafell Radley nos Iau 15 Hydref 2026 am 6.30yh. Gwahoddir y Maer, y Cyng Olwen Davies, i fynychu'r cyfarfod ar ran y cyngor.
- Barn Archwilio: Roedd archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 yn ddi-amod, ac ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder. Ni chodwyd unrhyw faterion na chynigion pellach.
- Mae dolen cod QR ar gyfer yr ymgynghoriad ar Ardal Chwarae Brenin Siôr V wedi'i gosod yn y parc, ac mae copïau caled wedi'u dosbarthu i'r Clwb Rygbi a'r Clwb Bowlio. Mae'r cod hefyd wedi'i rannu ar wefan y Cyngor Tref ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 1 September 2026.

- The meeting for Remembrance Sunday arrangements will be held in the Radley Room on Thursday 15 October 2026 at 6.30. The Mayor, Cllr Olwen Davies is invited to attend the meeting on behalf of the council.
- Audit Opinion: The Auditor General's audit of the Annual Return for the year ended 31 March 2026 was unqualified, with no matters identified giving cause for concern. No further matters or recommendations were raised.
- A QR code link to the King George V Play Area Consultation have been erected in the park and hard copies have been distributed to the Rugby Club, Bowling Club. The code has also been shared on the Town Council Website and Social Media.

b) **Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.**

- Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis / Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- Maes Sgrialu / Skateboard Park**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- Cae Chwarae Pentop / Pentop Play Area**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- Cyffredinol / General.**
Dim yw adrodd / Nothing to report.

c) **Amserlen waith mân / Minor works schedule.**

Mae'r amserlen wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr. Adolygwyd a chytunwyd ar yr amserlen gan y cynghorwyr.

The report has been forwarded beforehand to all councillors. The schedule was reviewed and agreed by the councillors.

6. **Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat**

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A260564 A260565	Jones Jonsel Management Ltd, 36-37 Angel Hotel, St Mary Street, Aberteifi, SA43 1ET	<i>Newid defnydd cyn-lawr dawnsio i fod yn ale fowlio pedair lôn, gan gynnwys mân addasiadau mewnol i'r adain ddeheuol / Change of use of former dance floor to 4 alley bowling alley, including minor interior alterations to southern wing.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr gefnogi'r ceisiadau hyn / Councillors resolved to support these applications.</i>
A260097	B&M Store, Aberystwyth Road, Aberteifi, SA43 1NA	<i>Dymchwel yr adeiladau presennol ac codi siop fwyd manwerthu Dosbarth A1 gyda maes parcio ar lefel y ddaear, gwaith tirlunio a datblygiad cysylltiedig / Demolition of the existing buildings and erection of a Class A1 retail foodstore with surface-level car parking, landscaping and associated development.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr gefnogi'r cais hwn / Councillors resolved to support this application.</i>
A260527	Webb, cae i'r dwyrain o'r A478 / Field East of A478, Aberteifi, SA43 3NH.	<i>Adeilad amaethyddol newydd i gymryd lle adeilad amaethyddol presennol / New agricultural building to replace an existing agricultural building.</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objection.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) **Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/10/26	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Hydref/October)</i> <i>Band Lydan (Hydref)/ Broadband (October)</i>	A9 A20	D/D BACS	£291.67.00(0.00) £20.00 (0.00)
06/10/26	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Awst/August)</i>	A5	BACS	£2009.90(0.00)
06/10/26	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Medi 2026 – 5 Hydref 2026 / PAYE payment for 6 September 2026 – 5 October 2026.</i>	A16	BACS	£670.87(0.00)
06/10/26	<i>Bachan Deche / Handyperson (Awst/August)</i>	A19	BACS	£1425.00(0.00)
06/10/26	<i>Bachan Deche / Handyperson – Public Conveniences</i>	B10	BACS	£2340.00(0.00)
09/09/26	<i>Gwasanaeth cyfieithu/Translating service</i>	A18	BACS	£100.00(0.00)
02/09/26	Net World Sprots – Basketball back board	C3	BACS	£309.64(0.00)
03/09/26	Vision ICT – Annual website hosting fees	A20	BACS	£315.88(52.65)

07/09/26	Telemat – ESET NOD32 Antivirus – 3 years	A17	BACS	£89.96(14.99)
07/09/26	EDF – Bath House Toilets	B10	BACS	£60.48(2.88)
07/09/26	EDF – Lower Mwldan Toilets	B10	BACS	£29.59(1.63)
07/09/26	EDF – Chancery Lane Toilets	B10	BACS	£65.95(3.14)
07/09/26	EDF – Victoria Gardens Toilets	B10	BACS	£84.06(0.91)
01/08/26	Nayax – Toilet payment systems	B10	BACS	£180.70(30.11)
11/09/26	Un Llais Cymru – Innovative Practice Conference	A24	BACS	£70.00(0.00)
17/09/26	M J Mullins	B10	BACS	£72.00(12.00)
21/09/26	CSC Ffi cau ffordd Sul y Cadoediad CCC Road Closure Fee Remembrance Sunday	A23	BACS	£74.00(0.00)
21/09/26	CSC Ffi cau ffordd Ffair Aberteifi CCC Road Closure Fee Cardigan Fair	D13	BACS	£995.00(0.00)
22/09/26	Menter Aberteteifi – Hire of Radley Room	A23	BACS	£20.00(0.00)
24/09/26	Menter Aberteteifi – Hire of Radley Room	A23	BACS	£70.00(0.00)
30/09/26	Un Llais Cymru – Training Module 30	A24	BACS	£44.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/08/2026	Lloyds Bank: Llog / Interest	£11.48
17/09/2026	Taliadau am y toiledau / Toilet payments	£252.95
09/2026	Taliadau Stondyn Ffair Aberteifi / Pitch Payments Cardigan Fair	£380.00

b) Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Medi 2026.

Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.

Cytunodd y Cynghorywr i gymeradwyo'r adroddiad ariannol uchod.

Financial Report to the end of September 2026.

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

The councillors agreed to approve the above financial report.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
237	Gareth Jones – Ysgrifennydd, Cymdeithas Owain Glyndŵr / Secretary, Owain Glyndŵr Society: Diwrnod dathlu Owain Glyndŵr Dydd Mercher 16 Medi / Celebrating Owain Glyndŵr Day Wednesday 16 September.	Penderfynwyd codi baner Owain Glyndŵr ar y polyn baner wrth y Neuadd y Dref, i gydnabod y digwyddiad / It was resolved to erect an Owain Glyndŵr flag, on the flagpole by the Guildhall, in recognition of the event.
238	Richard James – George Davies & Evans: Cyflwyniadau'r Gofrestrfa Tir ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus yn Bath House, Gerddi Victoria a Mwldan Isaf / Land Registry submissions for public conveniences at Bath House, Victoria Gardens and Lower Mwldan.	Nodwyd yr ymatebion / Responses noted.
239	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: U5005 Aberteifi, 29/09/26 08:00-17:00.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 01/09/2026. For your information. Forwarded to all councillors on 01/09/2026.
240	Bwletin Mis Medi Cynnal y Cardi September Bulletin.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 02/09/2026. For your information. Forwarded to all councillors on 02/09/2026.
241	Tracy Gilmartin - Un Llais Cymru / One Voice Wales:Cynhadledd Arfer Arloesol – Dydd Mercher 30 Medi 2026 / Innovative Practice Conference – Wednesday 30 September 2026.	Bydd y Clerc yn mynychu'r gynhadledd hon / The Clerk will be attending this conference.

242	Neal Jones – <i>Cadeirydd, Clwb Ceir Clasuro Aberteifi / Cardigan Classic Car Club: Diolch am eich cymorth / Thank you for your support.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 02/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/09/2026.
243	Sally Blaise – <i>Cyfarwyddwr / Director Gŵyl Cariad Aber 2027: Eich gwahoddiad i gymryd rhan / Your invitation to take part.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 02/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/09/2026.
244	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: B4548 Coronation Drive, Gwbert 02/09/2026-08/09/2026 24awr/hrs.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 03/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/09/2026.
245	Sarah Johnson – <i>Diwrnod Agored Dydd Mercher 23 Medi 11.00yb-3.00yp HUTS Open Day Wednesday 23 September 11.00am-3.00pm.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 03/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/09/2026.
246	Lyn Cadwallader – <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru / Chief Executive One Voice Wales: Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2027 / Motions for 2027 Annual General Meeting.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 03/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/09/2026.
247	Lyn Cadwallader – <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru / Chief Executive One Voice Wales: Adolygiadau Terfynau Cymunedol / Community Boundary Reviews.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 07/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/09/2026.
248	<i>Dŵr Cymru / Welsh Water: Codi'r Gwaharddiad Dros Dro ar Ddefnydd Pibellau Dyfrio / Lifting of Temporary Use Hosepipe Ban.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 07/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/09/2026.
249	Lyn Cadwallader – <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru / Chief Executive One Voice Wales: Digwyddiad ar y cyd Un Llais Cymru a SLCC / Joint One Voice Wales/SLCC Event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 07/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/09/2026.
250	Joe Wilcox – <i>Rheolwr Gyfarwyddwr / Managing Director, Light Em Up: Dyfynbris tair blynedd ar gyfer gosod goleuadau Nadolig / Three-Year Quote for installing Christmas lights.</i>	<i>Penderfynwyd gwahodd Mr Wilcox i gwrdd â'r cyngorwyr i drafod y dyfynbris / It was resolved to invite Mr Wilcox to meet with the councillors to discuss the quote.</i>
251	Jane Griffith – <i>Cwyn ynghylch y toiledau / Complaint regarding the toilets.</i>	<i>Wedi'i nodi; nid oes angen camau pellach na ymateb / Noted, no further action or response required.</i>
252	Paul Jones – <i>Clwb Pel Droed Maesglas Football Club: Les Parc Sglefrfyrrddio Aberteifi / Cardigan Skateboard Park Lease.</i>	<i>Cadarnhaodd Clwb Pêl-droed Maesglas eu bod yn fodlon llofnodi'r brydles newydd heb unrhyw ddiwygiadau / Maesglas Football Club confirmed they are happy to sign the new lease with no amendments.</i>
253	Tiffany Evans – <i>ParkinSings Enquiry.</i>	<i>Bydd y Clerc yn cadarnhau bod y côr wedi'u gwahodd i fynychu'r digwyddiad troi goleuadau'r Nadolig ymlaen / Clerk to confirm that the choir are invited to attend the Christmas light switch on event.</i>
254	Catrin – <i>Ysgrifennydd Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan Rugby Club Secretary: Les Parc Sglefrfyrrddio Aberteifi / Cardigan Skateboard Park Lease.</i>	<i>Cadarnhaodd Clwb Rygbi Aberteifi eu bod yn fodlon llofnodi'r brydles newydd heb unrhyw ddiwygiadau / Cardigan Rugby Club confirmed they are happy to sign the new lease with no amendments.</i>
255	Ruth Pilcher – <i>Rheolwr Gweithrediadau / Operations Manager, Area 43: Gwahoddiad Dathlu 30 Blynedd / Invitation to celebrate 30 years.</i>	<i>Bydd y Clerc yn cadarnhau y bydd wyth cyngorwyr yn ymuno â'r dathliadau / Clerk to RSVP that eight councillors will join the celebrations.</i>
256	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: A478 Aberteifi 04/10/26 19:00-23:00.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 10/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/09/2026.
257	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys / Dyfed Powys Police and Crime Commissioner: Bwletin Awst / August Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 10/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/09/2026.

258	Julian Beynon-Lewis – <i>Prif Weithredwr / Chief Executive, Menter Aberteifi: Canon Aberteifi / Cardigan Cannon.</i>	<i>Penderfynwyd rhannu hanes y ganon gyda HistoryPoints.org, gan eu galluogi i greu a gosod cod QR sy'n cysylltu â'r wybodaeth a llenyddiaeth hanesyddol / It was resolved to share the history of the cannon with HistoryPoints.org, enabling them to create and install a QR code linking to the historical information and literature.</i>
259	Heidi Booth – <i>Comisiynydd y Sir / County Commissioner, Girlguiding Ceredigion: Gwahoddiad i'w Hadolygiad Blynnyddol 2026 / Invitation to their Annual Review 2026.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/09/2026.
260	Elin Jones – <i>Preswylydd / Resident: Ail gam yr ymgynghoriad ar deithio llesol / Second phase active travel consultation.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn cefnogi'r cynllun hwn yn llawn ac wedi ymateb i'r ymgynghoriad teithio ar gyfer yr ail gam yn unigol / Councillors are fully supportive of this scheme and have answered the 2nd phase travel consultation on an individual basis.</i>
261	Cyng/Cllr Nick Bolton – <i>Coed Gerddi Fictoria / Victoria Gardens Trees.</i>	<i>Nodwyd y gwybodaeth / Information noted.</i>
262	Glen Johnson: <i>Enw ar gyfer y datblygiad ar safle'r hen ysbyty / Name for the development at the old hospital site.</i>	<i>Penderfynwyd gofyn i West Wales Housing gynnwys yr enw Orinda yn y datblygiad newydd / It was resolved to ask West Wales Housing to incorporate the name Orinda within the new development.</i>
263	Glen Johnson: <i>Canon Aberteifi / Cardigan Cannon.</i>	<i>Penderfynwyd rhannu hanes y ganon gyda HistoryPoints.org, gan eu galluogi i greu a gosod cod QR sy'n cysylltu â'r wybodaeth a'r llenyddiaeth hanesyddol / It was resolved to share the history of the cannon with HistoryPoints.org, enabling them to create and install a QR code linking to the historical information and literature.</i>
264	Jeremy Rundle – <i>Sylfaenydd a Chadeirydd / Founder and Chairman, CANDO Neurodiverse Outreach: Calendr digwyddiadau a gwybodaeth am aelodaeth y bwrdd / Calendar of events and board membership information.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/09/2026.
265	Hywel Dda Engagement: <i>Cynllun Gwasanaethau Clinigol – Gwasanaethau Strôc: ystyriaeth gydwbodol o adborth / Clinical Services Plan – Stroke Services: conscientious consideration of feedback.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/09/2026.
266	Steff Rees – <i>Arweinydd Tîm/ Team Leader, Cered: Parêd Gŵyl Dewi / St David's Day March.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn hapus i bwyllgor gael ei ffurfio i drefnu'r orymdaith flynyddol, ond maent yn teimlo'n gryf y dylai Cered barhau i arwain y digwyddiad er mwyn diogelu ei ddyfodol / Councillors are happy for a committee to be formed to organise the annual March but feel strongly that Cered keep the lead on the event to safeguard its future.</i>
267	<i>Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru / Democracy and Boundary Commission Cymru: Canllaw I Arolwg o etholaethau'r Senedd / Guide to the 2030 Review of Senedd constituencies.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/09/2026.
268	Tracy Gilmartin - <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Ceisiad pwysig gan y Loteri Cenedlaethol cynnigedig gan Un Llais Cymru – Helpwch ni l lunio dyfodol ariannu achosion da / Request from the National Lottery supported by One Voice Wales – help us shape the future of good causes funding.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/09/2026.
269	Bethan Williams – <i>Swyddog Ymgyrchoedd / Campaigns Officer, Cymdeithas yr Iaith: Nodiadu cyfarfod ymrwrthod â'r newidiadau l Gynghorau Cymuned a Thref Ceredigion / Notes from the meeting regarding the rejection of the changes to Ceredigion Community and Town Councils.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/09/2026.
270	Geraint Roberts – <i>Pennaeth Datblygu / Head of Development, Barcud: Tir Maesglas Land.</i>	<i>Bydd y Clerc yn gofyn am ganlyniad cyfarfod y grŵp llywio newydd, sy'n trafod y tir ym Maesglas, ar ôl 14</i>

		<i>Hydref / Clerk to ask for the outcome of the new steering group meeting, discussing the land at Maesglas, after 14 October.</i>
271	Samantha Coward – <i>CSC / CCC: Gorchymyn Cadw Coed 2026 Rhif 7, grŵp o goed I'r de o Gerddi Napier / Tree Preservation Order No 7 , group of trees on land south of Napier Gardens.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 16/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 16/09/2026.
272	Jeremy Rundle – <i>Sylfaenydd a Chadeirydd / Founder and Chairman, CANDO Neurodiverse Outreach: Prosiect Rhandiroedd Caerfyrddin / Carmarthen Allotment Project.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/09/2026.
273	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: E-fwletin Rhifyn 30 / E Bulletin Issue 30.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/09/2026.
274	<i>Uned Gofal Plant. CSC / Childcare Unit, CCC: Arolwg Gofal Plant I Rieni a Gofalwyr / Parent and Carer Childcare Survey.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 18/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/09/2026.
275	Titus Sharp – <i>Sêl Cyngor Tref Aberteifi / Cardigan Town Council Seal.</i>	<i>Mynegodd y cynghorwyr eu diolch diffuant i Mr Sharp am ei rodd hael o sêl y dref. Ar ei awgrym ef, penderfynwyd y dylai'r Cyngor roi rhodd o £100 i'r Cardi Shed i gydnabod ei haelioni / Councillors expressed their sincere gratitude to Mr Sharp for his generous gift of the town seal. At his suggestion, it was resolved that the Council make a donation of £100 to the Cardi Shed in recognition of his generosity.</i>
276	Wayne Jones - <i>Preswlydd / Resident: Problemau parcio / Parking issues.</i>	<i>Cytunodd y Cyngorydd Sir Elaine Evans i ymateb i Mr Jones gan egluro bod materion parcio o dan faes cyfrifoldeb CCC / County Councillor Elaine Evans agreed to respond to Mr Jones explaining that parking issues came under the remit of CCC.</i>
277	Elinor Ashworth-Chandler - <i>Arweinydd Prosiect Heneiddio'n Dda / Ageing Well Project Leader, Porth Cymorth Cynnar: Digwyddiad Iechyd Cymunedol Aberteifi / Cardigan Community Health Event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 21/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 21/09/2026.
278	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Rhes Greenfield Row 19/10/2026-20/10/26 1800:06:00.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/09/2026.
279	Lyn Cadwallader – <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru / Chief Executive One Voice Wales: Newidiadau I drefniadau llywodraethu a Phwyllgor Gweithredol Cenedlaethol / Changes to Governance and National Executive Committee Arrangements.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/09/2026.
280	Sally Newton – <i>Uwch-bensaer Tirwedd / Senior Landscape Architect, TACP Ltd: Ymysylltu â Rhanddeiliaid ar cynigion ar gyfer gwella canol trefi / Stakeholder Engagement on proposed town centre improvements.</i>	<i>Gweler eitem 8. I) / See point 8. I).</i>
281	Bethan Williams - <i>Swyddog Ymgyrchoedd / Campaigns Officer, Cymdeithas yr Iaith: Cynnig Gerbron – Cyfarfod Llawn y Cyngor 24 Medi / Motion against – Full Council Meeting Thursday 24 September.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn cefnogi'n llwyr y camau a gymerwyd gan Gymdeithas yr Iaith yn erbyn y newidiadau arfaethedig a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau i Gynghorau Tref a Chymuned / Councillors are in full support of the actions taken by Cymdeithas yr Iaith against the proposed changes made by the Boundary Commission to Town and Community Councils.</i>
282	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: A478 Aberteifi 04/10/26 19:00-23:00.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 23/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/09/2026.

283	Codi Trust – <i>Sefydliad sy'n cefnogi cymunedau lleol ledled Cymru</i> / Organisation supporting local communities across Wales.	<i>Penderfynwyd gwneud cais am grant i dalu am y prydau Nadolig a ddanfonwyd at y preswylwyr bregus yn ein tref</i> / It was resolved to apply for a grant to pay for the Christmas dinners delivered to the vulnerable residents in our town.
284	Dana Jones – <i>Canfyddiadau Côd Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus</i> / The Public Services Ombudsman Code of Conduct Findings.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/09/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/09/2026.
285	Deryck Evans – <i>Archwilio Cymru</i> / Audit Wales: <i>Cwblhau Archwiliad</i> / Completion of Audit.	<i>Llongyfarchodd y cynghorwyr y Clerc ar y Farn Ddigymhwys; rhannwyd yr hysbysiad yn y cyfarfod</i> / Councillors congratulated the Clerk on the Unqualified Opinion; the notice was shared in the meeting.
286	Jacqui Barker – <i>Cais am gyfarfod ynghylch gwelliannau arfaethedig i ganol y dref</i> / Request for a meeting regarding proposed town centre improvements.	<i>Mae'r Cyngorydd Elaine Evans eisoes wedi gofyn am gyfarfod â swyddogion CCC, a phenderfynwyd gwahodd perchnogion busnesau lleol i ymuno â'r cyfarfod pan fydd y trefniadau'n cael eu gwneud</i> / Cllr Elaine Evans has already requested a meeting with CCC officers, it was resolved to invite local business owners to join the meeting when arrangements are made.
287	Alun Harries – <i>Swyddog Rhanbarthol Gorllewin a Chanolbarth Cymru, Un Llais Cymru</i> / Mid and West Wales Development Officer, One Voice Wales: <i>Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion</i> / Area Committee Meeting Minutes.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/10/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/10/2026.
288	Jayne Owen - <i>Ymgysylltu â'r Gymuned</i> / Community Engagement, <i>Cyfle Cymru: O Les i Waith Cynaliadwy</i> / From Wellbeing to Sustainable Work.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/10/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/10/2026.
289	<i>Gardd Goedwig Gymunedol</i> Naturewise Community Forest Garden: <i>Gweithdy tocio</i> / Pruning workshop.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/10/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/10/2026.
290	Duncan Hall – <i>Cyllid a Chaffael, CSC</i> / Finance and Procurement, CCC: <i>Llythyr Praesept 2027-2028</i> / Precept Letter 2027-2028.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 01/10/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 01/10/2026.
291	Cllr Elaine Evans - <i>Ymysylltu â Rhanddeiliaid ar cynigion ar gyfer gwella canol trefi</i> / Stakeholder Engagement on proposed town centre improvements.	<i>Gweler eitem 8. I) / See point 8. I).</i>
292	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>E-fwletin Rhifyn 31</i> / E Bulletin Issue 31.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 02/10/2026.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/10/2026.
293	<i>Cyfeillion Parc Netpool</i> / Friends of Netpool Park: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>I'w trafod yn y cyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion nesaf.</i> To be discussed at the next Grants Sub-committee meeting.
294	<i>Castell Aberteifi</i> / Cardigan Castle: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>I'w trafod yn y cyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion nesaf.</i> To be discussed at the next Grants Sub-committee meeting.

d) Blodau Canol y Dref.

Penderfynwyd gofyn i'r Bachan Deche blannu planhigion a blodau sy'n addas ar gyfer y gaeaf yn y cynwysyddion planhigion yng nghanol y dref ar ôl i'r arddangosfeydd haf gael eu symud. Roedd y planhigion a awgrymwyd yn cynnwys pansis gaeaf, fiolâu a cyclamen, a all ddarparu lliw a diddordeb trwy gydol misoedd y gaeaf.

Town Centre Flowers.

It was resolved to request that winter-friendly plants and flowers be planted in the town centre planters when the summer displays are removed. Suggested plants included winter pansies, violas and cyclamen, which can provide colour and interest throughout the winter months.

e) Polyn Baner Cei'r Tywysog Siarl.

Cadarnhaodd cyfarfod ar y safle, a fynychwyd gan y Cyng Richard Davies, Nick Bolton a David Maehrlein, union leoliad y polyn baner. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn y cyfarfod nesaf.

Prince Charles Quay Flagpole.

A site meeting attended by Cllrs Richard Davies, Nick Bolton and David Maehrlein confirmed the exact location for the installation of the flagpole. The work will be completed before the next meeting.

f) Bandstand yng Ngardd Fictoria.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw perchnogaeth a chyfrifoldeb am y bandstand yng Ngerddi Fictoria. Penderfynodd y cynghorwyr ofyn i'r llwyfan band gael ei ail-baentio oherwydd y graffiti oedd yn gorchuddio'r strwythur.

Bandstand in Victoria Gardens.

Ceredigion County Council retains ownership and responsibility for the bandstand at Victoria Gardens. Councillors resolved to request that the bandstand be repainted due to the graffiti covering the structure.

g) Pared Y Llusernau.

Penderfynwyd caniatáu i Theatr Byd Bach ddefnyddio arwyddion cau ffyrdd ac radios y cyngor ar gyfer eu pared ym mis Rhagfyr.

Lantern Parade.

It was resolved to allow the Small World Theatre to use council the road closure signs and radios for their parade in December.

h) Mynediad i doiledau Chancery Lane.

Penderfynwyd rhoi allwedd i ystafell storio toiledau Chancery Lane i Clive Morris, o Cliand Computers, er mwyn cynnal gwiriadau rheolaidd ar y system CCTV.

Access to Chancery Lane toilets.

It was resolved to give a key to the storage room of Chancery Lane toilets, to Clive Morris, Cliand Computers to make regular checks and maintenance work on the CCTV system.

i) Troi ymlaen goleuadau Nadolig.

Penderfynwyd cadw'r un fformat digwyddiad â 2025, gydag ychwanegiad Côr Parkinsings yn canu yn Sgwâr y Farchnad wrth y Guildhall ar ôl i'r goleuadau gael eu troi ymlaen.

Switching on the Christmas lights.

It was resolved to keep the same event format as 2025, with the addition of the Parkinsings Choir singing in the Guildhall Market Square after the lights are switched on.

j) Gwasanaeth Dydd Sul y Cadoediad.

Penderfynwyd peidio â darparu lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth, gan fod y galw wedi lleihau dros y blynyddoedd ac mae nifer y bobl sy'n aros am luniaeth bellach yn isel iawn.

Remembrance Sunday Service.

It was resolved not to provide light refreshments after the service, as the demand has diminished over the years and attendance for refreshments is now very low.

k) Baneri ar bolion goleuo yng nghanol y dref.

Penderfynwyd argraffu naw baner 'Nadolig Llawen' i'w harddangos ledled canol y dref.

Town centre lamp post banners.

It was resolved to print 9 Merry Christmas banners to be displayed throughout the town centre.

l) Ymysylltu â Rhanddeiliaid ar cynigion ar gyfer gwella canol trefi.

Mynegodd cynghorwyr safbwyntiau amrywiol ynghylch y gwelliannau arfaethedig i ganol y dref, yn amrywio o gefnogaeth lawn i'r cynigion, i bryderon bod angen gwneud newidiadau, a bod angen mwy o ymgysylltiad gan fusnesau a thrigolion lleol.

Roedd y Cyng Elaine Evans wedi ysgrifennu at CCC cyn y cyfarfod, gan ofyn am set o gynlluniau cywir a diweddar, ynghyd â chyfarfod pellach gyda swyddogion CCC i drafod y pwyntiau amrywiol a godwyd yn ei gohebiaeth. Cytunodd y mwyafrif o'r cynghorwyr â'r pwyntiau a godwyd a chefnogasant ei chais am ymgysylltu pellach. Bydd y Cyng Olwen Davies yn dosbarthu'r cynlluniau diwygiedig i fusnesau lleol pan fyddant wedi'u derbyn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ailadrodd y cais am gyfarfod pellach ac am set o gynlluniau diweddar drwy Clic a'r penseiri sy'n ymwneud â'r newidiadau arfaethedig. Ar y cyfan, roedd cytundeb cyffredinol y byddai buddsoddiad i wella palmantau canol y dref yn fuddiol; fodd bynnag, roedd y cynghorwyr o'r farn bod angen rhagor o eglurhad ac ystyriaeth ar nifer o bwyntiau cyn y gallai'r cynigion symud yn eu blaenau.

Stakeholder Engagement on proposed town centre improvements.

Councillors expressed mixed views regarding the proposed town centre improvements, ranging from full support for the proposals, to concerns that amendments are required, and that greater involvement from local businesses and residents is necessary.

Cllr Elaine Evans had written to CCC prior to the meeting, requesting an updated and accurate set of plans, together with a further meeting with CCC officers to address the various points raised in her correspondence. The majority of Councillors agreed with the points raised and supported her request for further engagement. Cllr Olwen Davies will deliver the revised plans to local businesses when received.

It was agreed that the Clerk would duplicate the request for a further meeting and for an updated set of plans through Clic and the architects involved in the proposed alterations. Overall, there was general agreement that investment in improving the town centre pavements would be beneficial; however, Councillors felt that a number of points required further clarification and consideration before the proposals could progress.

m) Ceisiadau am gymorth ariannol / Applications for Financial Aid.

Enw'r Sefydliad/Clwb/Elusen Name of Organisation/Club/Charity	Derbyniwyd Cyfrifon Accounts received	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
<i>Clwb Pêl Droed Iau Llandudoch /</i>	✓	£964	£400	£400	£200

St Dogmaels Junior Football Club					
CANDO – Neurodiverse Outreach	✓	£0	£0	£0	£400
<i>Ffrindiau Parc Netpool</i> / Friends of Netpool Park	✓	£0	£0	£100	£100
<i>Castell Aberteifi</i> / Cardigan Castle	✓	£0	£1000	£1000	£1000

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer

4,5 a 6 Medi	Gwirfoddoli ar gyfer Rali Ceredigion
8 Medi	Cyfarfod Adolygu Ffiniau Cymunedol - Cymdeithas yr Iaith, Neuadd Llwyncelyn
11,12 a 13 Medi	Gŵyl Grefft Cymru, fynychwyd ar bob un o'r tri diwrnod
16 Medi	Noson Gwobrwy, Ysgol Uwchradd Aberteifi
22 Medi	Un Llais Cymru, Cyfarfod Pwyllgor Ardal
25 Medi	Cinio Ein Cegin yn Neuadd y Dref, Aberteifi
25 Medi	Digwyddiad codi arian cerdded ar dân, Canolfan Therapi Ocsigen
27 Medi	Cystadleuaeth Agored Bolt Action Gorllewin Cymru – cyflwyno tlws a derbyn rhoddion o £100 i'r Ganolfan Therapi Ocsigen a £100 i Cardigan Cancer Care.
30 Medi	Cyfarfod ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer gwelliannau arfaethedig i ganol tref Aberteifi
5 Hydref	Cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol newydd Theatr Mwldan – Hannah Firth

Mayor's Diary

4,5 and 6 September	Volunteering for the Rally Ceredigion Event
8 September	Community Boundary Reviews Meeting - Cymdeithas yr Iaith, Llwyncelyn Hall
11, 12, and 13 September	Craft Festival Wales, attended for all three days
16 September	Prize Giving Evening, Ysgol Uwchradd Aberteifi
22 September	One Voice Wales, Area Committee Meeting
25 September	Ein Cegin Dinner at the Guildhall, Cardigan
25 September	Walking on fire fundraiser, Oxygen Therapy Centre
27 September	Bolt Action West Wales Open Competition, presenting trophies and accepting £100 to Oxygen Therapy Centre and £100 Cardigan Cancer Care
30 September	Stakeholder engagement meeting for proposed improvements to Aberteifi town centre
5 October	Meeting with Theatre Mwldan new Chief Executive Officer – Hannah Firth

b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Roedd y maes chwarae yn Ridgeway ar gau am rai wythnosau oherwydd nyth gwenyn, a chefais sawl cwyn gan drigolion. Cysylltais â Barcud a gofyn iddynt drefnu bod y nyth yn cael ei symud er mwyn i'r maes chwarae gael ei ailagor yn ddiogel. Mae'n ymddangos bod yr ardal bellach wedi ailagor.
- Adroddais am fan wedi'i adael ar lithrfa Gloster Row.
- Gofynnwyd imi ymweld â phreswlydd sy'n byw mewn fflat anaddas oherwydd problemau symudedd ac iechyd. Ar hyn o bryd, rwy'n trafod y sefyllfa gyda CSC ynghylch eu fflat presennol. Bu cryn dipyn o gyfathrebu a chefnogaeth yn rhan o'r broses o geisio datrys y sefyllfa. Rwyf hefyd wedi bod yn cynorthwyo cwpl arall unwaith eto gyda mater tai, gan fod eu tŷ presennol yn gwbl anaddas i'w hanghenion. Rwy'n falch o adrodd bod tŷ cymdeithasol addas bellach wedi'i sicrhau ar eu cyfer.
- Llongyfarchiadau i Theatr Mwldan ar dderbyn enwebiad BAFTA Cymru yn y categori Rhaglen Adloniant am *Other Voices: Cardigan 2025*. Hefyd, llongyfarchiadau i label recordiau Theatr Mwldan, Bendigedig, sydd, am yr ail dro, wedi'i enwi'n un o 20 Label Gorau WOMEX y Flwyddyn. Eleni, mae'r gydnabyddiaeth hon yn deillio o albwm Catrin Finch, *Notes To Self*, sydd wedi treulio cryn dipyn o amser yn Siartiau Cerddoriaeth y Byd Transglobal a Siartiau Cerddoriaeth y Byd Ewrop.
- Mynychais ddau gyfarfod Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y mis hwn. Roedd y cyfarfod cyntaf yn ystyried y Polisi Ymddeol Hyblyg, y Polisi Tywydd Garw, adolygiad o bolisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â Chwynion a Rhyddid Gwybodaeth (FOI), a Gwasanaeth y Crwner. Roedd yr ail gyfarfod yn ystyried Adroddiad Blynnyddol y Prif Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) 2026, y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Seiber, y Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid 2026, a diweddariad ar y Strategaeth Ariannol.
- Mynychais gyfarfod Cymunedau Iach lle trafodwyd nifer o faterion, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2025–2028 ac Adroddiad Blynnyddol Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Ceredigion.
- Mynychais gyfarfod Llawn y Cyngor ond, yn anffodus, bu'n rhaid imi adael cyn y diwedd. Nodwyd y bydd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) sy'n ymwneud ag yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus yn Aberteifi yn parhau mewn grym am dair blynedd arall.
- Mynychais gyfarfod ynghylch ymgysylltiad rhanddeiliaid CSC ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig i ganol tref Aberteifi. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch y cynllun arfaethedig. Rwyf wedi ysgrifennu at CSC yn gofyn iddynt gyfarfod â masnachwyr lleol i drafod y cynlluniau, gan fod y masnachwyr wedi gofyn am gyfarfod â ni.
- Rwyf wedi derbyn adroddiadau pellach am dipio anghyfreithlon yn y man ailgylchu ym maes parcio Stryd y Cei.
- Cefais gŵyn am y chwyn ar Brecon Terrace, gan fod y llwybr wedi gordyfu drosodd. Rwyf wedi cysylltu â CSC i ofyn a allant drefnu i'r chwyn gael eu clirio.

CLlr Elaine Evans Teifi Ward

- The play area at Ridgeway was closed for a couple of weeks due to a wasps' nest, and I received several complaints from residents. I contacted Barcud and asked them to arrange for the nest to be removed so that the play area could be safely reopened. It now appears that the area has been reopened.
- I reported an abandoned van on the Gloster Row slipway.
- I was asked to visit a resident who is living in unsuitable accommodation due to mobility and health issues. I am currently in discussions with CCC regarding their current flat. A considerable amount of communication and support has been involved in trying to resolve the situation. I have been assisting another couple again with a housing issue, as their current premises were

totally unsuitable for their needs. I am pleased to report that suitable social housing has now been secured for them.

- Congratulations to Theatre Mwldan on receiving a BAFTA Cymru nomination in the Entertainment Programme category for *Other Voices: Cardigan 2025*. Also, congratulations to Theatre Mwldan's record label, Bendigedig, which has, for the second time, been named as one of the WOMEX Top 20 Labels of the Year. This year's recognition is due to Catrin Finch's album *Notes To Self*, which has spent considerable time in both the Transglobal World Music Charts and the European World Music Charts.
- I attended two Corporate Resources Overview and Scrutiny meetings this month. The first meeting considered the Flexible Retirement Policy, Adverse Weather Conditions Policy, a review of policies and procedures relating to Complaints and Freedom of Information (FOI), and the Coroner Service. The second meeting considered the Senior Information Risk Owner (SIRO) Annual Report 2026, Cyber Resilience Strategy and Action Plan, Information and Records Management Policy, Digital Strategy Update, Customer Service Strategy 2026, and a Financial Strategy update.
- I attended a Healthier Communities meeting where a number of matters were discussed, including the Play Sufficiency Assessment Action Plan 2025–2028 and the Ceredigion Carers and Community Support Team Annual Report.
- I attended a Full Council meeting but unfortunately had to leave before the end. It was noted that the Public Spaces Protection Order (PSPO) relating to alcohol consumption in public spaces in Cardigan will remain in force for a further three years.
- I attended a meeting regarding CCC's stakeholder engagement on the proposed improvements to Aberteifi town centre. There was some discussion around the proposed scheme. I have written to CCC asking them to meet with local traders to discuss the plans, as traders have asked to have a meeting with us.
- I have received further reports of fly-tipping at the recycling point in Quay Street car park.
- I received a complaint about the weeds on Brecon Terrace, as the walkway has become quite overgrown. I have contacted CCC to ask if they can arrange for the weeds to be cleared.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Adroddwyd am ollyngiad olew bach i CSC, ac fe'i cliriwyd o fewn hanner awr i'r adroddiad gael ei wneud.
- Mynychais Noson Wobrwy Ysgol Uwchradd Aberteifi yng Ngwesty'r Cliff.
- Mynychais gyfarfod Cymunedau Iach.
- Yn dilyn rhywfaint o ddryswch yn ddiweddar ynghylch parcio am ddim i ddeiliaid Bathodynau Glas ym meysydd parcio canol y dref, cadarnheais gyda CSC y gall deiliaid Bathodyn Glas barcio mewn unrhyw le parcio yn unrhyw un o'r meysydd parcio lleol.
- Mynychais gyfarfod arall gyda'r Lloches i Ferched i drefnu digwyddiad Diwrnod Rhuban Gwyn, sydd wedi'i drefnu ar gyfer y mis nesaf. Bydd y digwyddiad yn hyrwyddo perthnasoddd cadarnhaol ac iach rhwng dynion a menywod, ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd parch a chydarddoldeb.
- Mae cyfle ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar-lein ynghylch cludiant i'r ysbyty. Gall unrhyw un sy'n dymuno lleisio ei farn ddod o hyd i'r ymgynghoriad ar gwefan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- Mynychais gyfarfod ynghylch ymgysylltiad rhanddeiliaid CSC ar y gwelliannau arfaethedig i ganol tref Aberteifi.

- Rwy'n dosbarthu bandiau arddwrn i'r grŵp MENCAP er mwyn galluogi'r derbynwyr i fynychu noson reidiau am ddim yn y ffair. Mae'r bandiau arddwrn wedi'u rhoi'n garedig gan Vernon Studt.
- Roeddwn yn falch iawn o gefnogi bore coffi a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys Gatholig ar 17 Hydref. Rhoddwyd yr arian a godwyd i Ofal Canser Aberteifi. Diolch i'r Cyng Teresa Harries am drefnu'r digwyddiad.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- A small oil spill was reported to CCC and was cleared within half an hour of being reported.
- I attended the Ysgol Uwchradd Aberteifi Prize-Giving Evening at the Cliff Hotel.
- I attended a Healthier Communities meeting.
- Following some recent confusion regarding free parking for Blue Badge holders in town centre car parks, I confirmed with CCC that Blue Badge holders can park in any space in any of the local car parks.
- I attended another meeting with the Women's Refuge to organise a White Ribbon Day event, which is planned for next month. The event will promote positive and healthy relationships between men and women and raise awareness of the importance of respect and equality.
- There is currently an opportunity to take part in an online consultation regarding hospital transport. Anyone wishing to have their say can find the consultation on the Welsh Ambulance Services University NHS Trust website.
- I attended a meeting regarding CCC's stakeholder engagement on the proposed improvements to Aberteifi town centre.
- I am distributing wristbands to the MENCAP group to enable recipients to attend the free rides evening at the fair. The wristbands have been kindly donated by Vernon Studt.
- I was very pleased to support a coffee morning held at the Catholic Church Hall on 17 October. The funds raised were donated to Cardigan Cancer Care. Thank you to Cllr Teresa Harries for organising the event.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Nodwyd dim.

Items for the next Agenda.

None Noted.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.20yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 9.20pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date